GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN
(DRE-FACH, LLANELLI; PORTH-Y-RHYD I FOELGASTELL; CENARTH I ABER-CUCH)
(GOSOD TERFYN CYFLYMDER 40 M.Y.A.) 2026

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), 84(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" o hyn ymlaen), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Dre-fach, Llanelli; Porth-y-rhyd i Foelgastell; Cenarth i Aber-cuch) (Gosod Terfyn Cyflymder 40 M.Y.A.) 2026" a bydd yn dod i rym ar y XXX o XXX 202x.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

   (a) Ystyr '**Atodlen Map**' yw'r casgliad o Deils Map a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn sy'n dangos, drwy gyfeirio at Eglurhad yr Atodlen Map, y darnau ffyrdd y mae'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt.

   (b) Ystyr '**Cerbyd Esempt**' yw:

      (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn Adran 87 o'r Ddeddf.

      (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd, am y tro, yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r Lluoedd Arbennig ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth

ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol neu at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

(c) Ystyr '**Cyfeirnod Teilsen**' yw'r cyfeirnod a roddir i bob Teilsen Map, gan ddechrau yn y pen uchaf ar y chwith a chynyddu'n rhifiadol ar draws y grid yn llorweddol ac yn nhrefn yr wyddor i lawr y grid yn fertigol.

(d) Ystyr '**Eglurhad yr Atodlen Map**' yw'r allwedd neu'r canllaw a arnodwyd ar y Deilsen Map sy'n dehongli'r llinellau, y cysgodi a'r symbolau penodol a ddefnyddir i nodi'r darnau o ffordd y mae'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt.

(e) Ystyr '**Lluoedd Arbennig**' yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd, am y tro, yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr.

(f) Ystyr '**Map**' yw map o Sir Gaerfyrddin, sydd i'w ddarllen ar y cyd â'r Gorchymyn ac sy'n ffurfio rhan o'r Gorchymyn.

(g) Ystyr '**Teilsen Map**' yw petryal grid sy'n troshaenu'r Map, sy'n dynodi ardal yn Sir Gaerfyrddin, lle mae gan bob teilsen Gyfeirnod Teilsen unigryw.

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio Cerbyd Esempt, yn gyflymach na 40 m.y.a. ar hyd y darnau ffyrdd a ddangosir ar yr Atodlen Map a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Mae "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder 50 M.Y.A.) 2025", drwy hyn, yn cael ei ddirymu i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darnau ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn sydd bellach yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder 40 m.y.a.

GWNAED o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y XXX o XXX Dwy Fil a Dau Ddeg XXX

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN)

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN)

ar y ddogfen hon)

ym mhresenoldeb:)

.....

Steven P Murphy

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

ATODLEN MAP

AC28	AC29	AC30	AD29
L10	L11	M10	